

**Canllaw Pecyn Cymorth**  
**Cod Ymarfer –**  
Cyflogaeth Foesegol mewn  
Cadwyni Cyflenwi  
Mai 2017



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cod Ymarfer

## Canllaw ar Drechu Cosbrestru



# Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Beth yw Cosbrestru?	4
3. Gofynion a Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddiol	6
4. Pam y dylech boeni am Gosbrestru?	8
5. Sut y gallwch drechu Cosbrestru?	9
Atodiad A – Cymorth, Canllawiau ac Adnoddau Pellach	14
Atodiad B – Cwestiynau SQuld ar Gosbrestru mewn contractau sector cyhoeddus	16

Mae'r Canllaw hwn yn rhan o'r Pecyn Cymorth sy'n ategu'r 'Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'.

Anelir y Canllaw hwn at unrhyw un sydd ynghlwm wrth gyflenwi nwyddau, gwasanaethau a gwaith, gan gynnwys caffael, rheoli contractau a rheoli cyflenwyr.

Mae'r canllawiau hyn at ddibenion gwybodaeth yn unig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwarantu cywirdeb na chyflawnrwydd y wybodaeth a roddir nac yn atebol am unrhyw wallau, hepgoriadau, neu ddatganiadau camarweiniol a geir yn y canllawiau hyn. Ni ddylid dibynnu ar y canllawiau hyn yn lle cael cyngor cyfreithiol annibynnol. Dylid cael cyngor penodol (cyfreithiol neu fel arall) sy'n ymwneud ag amgylchiadau'r unigolyn neu'r sefydliad ei hun.

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg ac â pharch ac i wneud Cymru yn wrth-gaethwasiaeth.

Cafodd y ‘Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi’ ei gynllunio er mwyn helpu i sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn ffordd deg a moesegol. Mae'r Cod yn helpu i ymdrin â'r materion cyflogaeth canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern a thorri hawliau dynol
- **Cosbrestru**
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau mantell a chontractau dim oriau
- Talu'r Cyflog Byw.

Mae ‘Datganiad Polisi Caffael Cymru’ yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Datblygwyd y Cod Ymarfer i adlewyrchu ethos a nodau cyffredinol y Datganiad Polisi diwygiedig ac mae'n helpu i gyflawni Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- **Cymru lewyrchus** – *Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*  
Bydd y Cod Ymarfer yn cyfrannu at gyflawni'r Nod Llesiant hwn drwy gynnig gwell

cyfleoedd gwaith a chefnogi datblygiad gyrfa hirdymor drwy wella arferion cyflogaeth ymhob cadwyn gyflenwi yng Nghymru.

- **Cymru fwy cyfartal** – *Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).*  
Bydd y Cod Ymarfer yn cyfrannu at gyflawni'r Nod Llesiant hwn drwy gefnogi'r gwaith o ddileu arferion cyflogaeth annheg ymhob cadwyn gyflenwi yng Nghymru.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – *Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.*  
Bydd y Cod Ymarfer yn cyfrannu at gyflawni'r Nod Llesiant hwn drwy gefnogi'r gwaith o ddileu caethwasiaeth fodern ymhob cadwyn gyflenwi ledled y byd.

## 2. Beth yw Cosbrestru

Cosbrestru, neu'r defnydd o restrau gwaharddedig, yw'r arfer anghyfreithlon o lunio gwybodaeth am gyflogeion sy'n ymwneud â'u haelodaeth o Undebau Llafur a gweithgareddau cysylltiedig, er mwyn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Gall cosbrestrau hefyd gynnwys mwy o fanylion am unigolion sydd wedi codi pryderon, er enghraifft, o ran iechyd a diogelwch a/neu faterion amgylcheddol.

### Cefndir:

Yn 2009, daeth cosbrestru yn y diwydiant adeiladu i'r amlwg ar lefel genedlaethol yn dilyn cyhoeddi ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i fusnes preifat o'r enw 'The Consulting Association (TCA)'.

Canfu'r ICO fod TCA wedi bod yn darparu gwasanaeth fetio i fwy na 40 o gwmnïau adeiladu ac roedd ganddi gosbrestr a ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth helaeth am fwy na 3,300 o unigolion ledled y DU. Nododd fod y wybodaeth wedi'i defnyddio i fetio unigolion ac atal pobl rhag cael eu cyflogi am resymau a oedd yn cynnwys bod yn aelod o undeb llafur neu fod â phryderon iechyd a diogelwch. Credir bod tua 110 o'r unigolion hyn yn byw yng Nghymru.

Cafodd yr unigolyn a oedd yn rhedeg TCA ei erlyn yn dilyn hynny a chafodd ddirwy am fetu â chydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1988 a chofrestru fel rheolwr data.

Cyn achos TCA roedd Cosbrestru wedi bodoli ers yr 1920au, ond arweiniodd yr achos hwn at gyflwyno deddfwriaeth benodol a oedd yn anelu at roi terfyn ar Gosbrestru.



### 3. Gofynion a Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Mae cosbrestru yn cwmpasu sawl maes o ddeddfwriaeth.

#### **Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau) 2010 (Rheoliadau Cosbrestru 2010)**

Mae Rheoliadau Cosbrestru 2010, a ymgorfforwyd yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 2010, yn annog cyflogwyr i sicrhau bod data ac arferion fetio yn gyfreithlon ac yn parchu preifatrwydd unigolion.

Mae Rheoliadau Cosbrestrau 2010 yn diffinio 'rhestr waharddedig' fel un sy'n:

- (a) cynnwys manylion unigolion sydd neu sydd wedi bod yn aelodau o undebau llafur neu unigolion sy'n cymryd rhan neu wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau undebau llafur
- (b) wedi'i llunio gyda'r nod o gael ei defnyddio gan gyflogwyr neu asiantaethau cyflogi at ddibenion gwahaniaethu mewn perthynas â recriwtio neu mewn perthynas â thrin gweithwyr.

Diffinnir gwahaniaethu fel a ganlyn:

- (c) trin unigolyn yn llai ffafriol na rhywun arall ar sail aelodaeth o undeb llafur neu weithgareddau undeb llafur.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud y canlynol:

- Ei gwneud yn anghyfreithlon i wrthod cyflogi rhywun, diswyddo cyflogai neu, fel arall, achosi anfantais i weithiwr am reswm sy'n gysylltiedig â rhestr waharddedig
- Ei gwneud yn anghyfreithlon i asiantaeth gyflogi wrthod darparu gwasanaeth i weithiwr am reswm sy'n gysylltiedig â rhestr waharddedig
- Galluogi'r tribiwnlys cyflogaeth i wrando cwynion am achosion honedig o dorri'r rheoliadau

- Fel dewis amgen, galluogi'r llysoedd i wrando cwynion gan unrhyw un sy'n dweud ei fod wedi dioddef colled neu golled posibl yn dilyn achos o dorri'r rheoliadau .

#### **Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhai) 1992**

Mae Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhai) 1992 yn rheoleiddio cyfraith llafur Prydain. Swyddogaeth y Ddeddf yw:

- diffinio undebau llafur a nodi eu bod yn destun hawliau a dyletswyddau cyfreithiol
- diogelu hawliau gweithwyr i drefnu neu adael undeb heb unrhyw wahaniaethu nac effaith andwyol arall
- darparu fframwaith i undeb gydfargeinio am well safonau busnes neu well safonau yn y gweithle gyda chyflogwyr
- diogelu hawl gweithwyr mewn undeb i gymryd camau gweithredu, gan gynnwys streicio a chamau diwydiannol nad ydynt yn gyfystyr â streic, er mwyn cefnogi ac amddiffyn eu buddiannau, pan roddir rhybudd rhesymol, a phan fo'r camau hynny yn disgwyl neu'n hyrwyddo anghydfod masnachol.

#### **Deddf Diogelu Data 1998**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei defnyddio gan sefydliadau, busnesau neu'r llywodraeth. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998 a chyfreithiau cysylltiedig. Yn eu plith mae erlyniad troseddol, gorfodi anhroseddol ac archwilio.

Rhaid i unrhyw un sy'n prosesu gwybodaeth bersonol hysbysu'r ICO, cofrestru â hi fel rheolwr data a chydymffurfio ag wyth egwyddor y Ddeddf Diogelu Data, sy'n cynnwys

bod yn rhaid casglu data am resymau cyfreithlon. Mae methu â chofrestru yn drosedd a gellir cael dirwy o hyd at £500k. Bydd yr ICO yn diweddarau'r gofrestr o reolwyr data, sydd ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

Gall unrhyw un sy'n gweithredu Cosbrestru gael ei erlyn am fethu â chydymffurfio â'r Ddeddf a methu â chofrestru fel rheolwr data.

### **Deddf Hawliau Dynol 1998:**

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau sydd gan bawb yn y DU, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ddiogelu a pharchu hawliau dynol pobl. Mae Erthygl 11 yn darparu ar gyfer rhyddid i ymgynnull ac ymgysylltu.

Mae'r Ddeddf yn gwneud y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhan o gyfraith y DU. Mae hyn yn sicrhau y gall dinasyddion y DU gyflwyno achos o dorri hawliau dynol mewn llys ym Mhrydain yn hytrach na Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbwrg.

### **Rheoliadau Rhyngwladol:**

Mae hawliau'n ymwneud â'r Rhyddid i Ymgysylltu, gan gynnwys drwy Undebau Llafur, a'r hawl i drefnu yn cael eu cwmpasu gan nifer o reoliadau Rhyngwladol gan gynnwys:

- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 1953 Erthyglau 11 ac 14
- Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd Cymdeithasol a Diwylliannol 1976
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol 1976
- 8 Cytundeb Craidd ILO – Cytundeb Rhyddid i Ymgysylltu a Diogelu'r Hawl i Drefnu, 1948 (Rhif Cytundeb 87).

### **'Nodyn Cyngor Caffael Cosbrestru yn y Diwydiant Adeiladu' Llywodraeth Cymru**

Cafodd y Nodyn Cyngor Caffael (PAN), a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2013, ei lunio gan Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi cyngor ar gosbrestru/y defnydd o restrau gwaharddedig sy'n ymwneud ag unigolion yn y diwydiant adeiladu (neu unrhyw ddiwydiant arall). Mae'r PAN yn manylu ar gefndir cosbrestru/y defnydd o restrau gwaharddedig, yn amlinellu'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys yn y maes hwn ac yn amlinellu sefyllfa polisi Llywodraeth Cymru. Bydd y PAN o ddiddordeb arbennig i staff y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â chaffael a chyflawni contractau adeiladu. Disgwylir i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ddilyn y canllawiau ymhob contract perthnasol, yn unol ag Egwyddor 9 o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru 2015:

*Datblygu a Gweithredu Polisi – defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).*

Ceir copi o'r PAN yn: [www.prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy](http://www.prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy).

## 4. Pam y dylech boeni am Gosbrestru?

Pan ddaeth cosbrestru i'r amlwg, comisynodd UCATT (sydd bellach wedi uno ag Unite) yr Athro Keith Irwin i baratoi adroddiad 2010, sef "Ruined Lives".

[www.ucatt.org.uk/ruined-lives-ucatt-report-blacklisting](http://www.ucatt.org.uk/ruined-lives-ucatt-report-blacklisting)

Yn yr adroddiad mae'r Athro Irwin yn disgrifio cosbrestru fel "*a nasty, secretive and unaccountable practice that causes untold misery for individuals who are entrapped unwittingly by its covert nature, incapable of challenging what is being said and used against them, and unable to understand why their lives are being blighted by the failure to secure work.*"

Gall cosbrestru fod yn niweidiol i yrfaeodd a bywoliaeth unigolion nad ydynt yn cael achub ar gyfleoedd gwaith. Ymhlith yr effeithiau posibl ar y gweithwyr hynny a dargedir mae:

- Methu â chael eu cyflogi yn eu dewis ddiwydiant heb ddeall pam
- Difenwi cymeriad
- Diweithdra hirdymor
- Materion personol fel problemau ariannol, teuluol ac iechyd difrifol.

Gwyddys iddo gael ei ddefnyddio gan gwmnïau adeiladu sy'n gweithredu yng Nghymru ac iddo gynnwys gweithwyr adeiladu o Gymru.

Gall cymryd camau rhagweithiol tuag at nodi ac ymdrin ag achosion o gosbrestru helpu i gyflawni'r buddiannau canlynol i'ch sefydliad:

- Gwell hawliau i staff sy'n aelodau o undebau llafur neu'r rheini sy'n dweud eu dweud
- Gwell delwedd ac enw da i'ch sefydliad sy'n arwain at:

- Fod yn ddeniadol i ddarpar gwsmeriaid
- Bod yn ddeniadol i ddarpar fuddsoddwyr
- Bod yn ddeniadol i ddarpar gyflogeion – sy'n allweddol lle ceir prinder sgiliau
- Gwell cyfraddau cadw staff sy'n arwain at gynhyrchion a/neu wasanaethau o ansawdd gwell drwy ddatblygu sgiliau a gedwir o fewn y busnes
- Mwy o gynhyrchiant yn sgil gweithlu sicr â mwy o gymhelliant

I'r gwrthwyneb, gall derbyn yr arfer gael effaith negyddol ar eich busnes eich hun:

- Gall niwed i'ch enw da olygu nad yw buddsoddwyr yn barod i gael eu cysylltu â'ch busnes
- Gall niwed i'ch enw da leihau morâl staff presennol a chyfyngu ar eich gallu i gyflogi staff newydd
- Efallai y bydd eich sefydliad yn destun sancsiynau cyfreithiol a/neu gosbau ariannol os profir cosbrestru.

Ar 14 Gorffennaf 2014, cytunodd yr Uchel Lys ar Orchymyn Ymgyfreitha Grŵp gydag Undebau gweithwyr lle cafwyd setliad rhwng y partion dan sylw a'r cwmnïau adeiladu a nodwyd. Hyd yn hyn, cafwyd setliadau ar gyfer 771 o bobl gan greu cyfanswm o £75m. Ynghyd â'r setliadau bu'n rhaid i'r cwmnïau ymddiheuro'n ffurfiol. [www.bbc.co.uk/news/business-36242312](http://www.bbc.co.uk/news/business-36242312)



## 5. Sut y gallwch drechu Cosbrestru?

Yn yr adran hon, cewch gyngor ymarferol ar y camau y gallwch eu cymryd i drechu cosbrestru a'r defnydd o restrau gwaharddedig.

Maes	Camau gweithredu allweddol:
Datblygu Polisi	Llunio polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesebol a'i rannu'n eang
	Llunio (neu ddiweddarau) polisi ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban a'i rannu'n eang
Hyfforddiant a Chysylltiadau	Codi ymwybyddiaeth o Gosbrestru ymhlith eich staff a darparu hyfforddiant priodol
	Codi ymwybyddiaeth o Gosbrestru ymhlith eich cyflenwyr a darparu hyfforddiant priodol
Gweithdrefnau caffael a rheoli contractau	Adolygu a diwygio eich prosesau caffael ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig
	Adolygu a diwygio eich prosesau rheoli contract ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig
	Adolygu a diwygio eich prosesau archebu a thalu
Datrys problemau a nodir	Gweithio gyda'ch cyflenwyr i ddatrys problemau a newid arferion gwaith
	Terfynu eich contract

Ni ddylai'r camau hyn gael eu hystyried yn weithgareddau untro ond dylid eu cymryd yn rheolaidd fel rhan o'ch prosesau busnes arferol.

Wrth ddarllen yr adran hon, mae'n bwysig ystyried maint eich sefydliad, y lefel o risg o fewn eich cadwyn gyflenwi o ran cosbrestru a pha gamau rydych eisoed wedi'u cymryd. Dylai'r camau gweithredu, a'r amser a dreulir ar gosbrestru, fod yn gymesur a thargedu'r materion sy'n effeithio arnoch chi a'ch cadwyn gyflenwi fwyaf.

### Datblygu polisi:

**Llunio polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesebol a pholisi ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban a'u rhannu'n eang.**

### Polisi Cyflogaeth Foesebol:

Cyn i chi ddechrau ysgrifennu eich polisi, bydd angen i chi benderfynu beth yw eich safbwynt ynghylch arferion cyflogaeth annheg – gweler y Polisi Cyflogaeth Foesebol Enghreifftiol yn y Pecyn Cymorth am arweiniad a rhestr o ystyriaethau.

### **Polisi Chwythu'r Chwiban:**

Cyn i chi ddechrau ysgrifennu eich polisi, bydd angen i chi benderfynu sut y dylai aelodau o'ch staff godi unrhyw bryderon neu amheuon am arferion cyflogaeth annheg. Bydd hefyd angen i chi sefydlu system ar gyfer cofnodi problemau ac ymchwilio iddynt, olrhain cynnydd a monitro canlyniadau. Ar gyfer sefydliadau llai lle nad yw efallai'n ymarferol gweithredu system o'r fath, efallai y byddwch am ddefnyddio asiantaethau allanol yn fwy (e.e. Gwasanaeth Adborth Cyflenwyr Llywodraeth Cymru neu Undebau Llafur). Gweler y Polisi Chwythu'r Chwiban Enghreifftiol yn y Pecyn Cymorth am arweiniad a rhestr o ystyriaethau.

Unwaith y caiff ei ddatblygu dylech:

- Sicrhau bod y polisi yn cael ei gymeradwyo gan aelod o'r Bwrdd/Uwch dîm o fewn eich sefydliad
- Rhannu'r polisi â'ch holl staff
- Cyhoeddi'r polisi ar eich gwefan mewn man amlwg
- Ei rannu â'ch holl gyflenwyr, partneriaid busnes a rhanddeiliaid
- Sicrhau bod y polisi yn cael ei adlewyrchu o fewn unrhyw bolisiau eraill sydd gennych ac o fewn eich prosesau a'ch gweithdrefnau safonol, e.e. eich polisi caffael, dogfennau tendr, contractau, dogfennau recriwtio a hyfforddi, cod ymddygiad cyflenwyr, cod ymddygiad cyflogaeth ac ati.

Dylech adolygu'r polisi yn rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn.

### **Hyfforddiant a chysylltiadau:**

#### **Codi ymwybyddiaeth o gosbrestru a'r defnydd o restrau gwaharddedig ymhlith eich staff a darparu hyfforddiant priodol**

Mae'n bwysig bod eich staff yn deall beth yw cosbrestru a rhestrau gwaharddedig, sut y gallant effeithio ar eich busnes a'ch cadwyni cyflenwi a pha gamau y gall staff eu cymryd, neu y dylent eu cymryd, yn eu rolau beunyddiol.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Gynnwys gwybodaeth am gosbrestru ac arferion cyflogaeth annheg tebyg eraill mewn prosesau sefydlu staff
- Adolygu hyfforddiant staff presennol er mwyn cynnwys cosbrestru mewn hyfforddiant ar arferion cyflogaeth annheg
- Cyflwyno hyfforddiant penodol ar gosbrestru a'r materion sy'n ymwneud ag ef i staff mewn rolau perthnasol e.e. adnoddau dynol, caffael, prynu, rheoli contractau a chyflenwyr.

Codi ymwybyddiaeth o gosbrestru ymhlith eich cyflenwyr a darparu hyfforddiant priodol.

Mae'n bwysig bod eich cyflenwyr yn deall beth yw cosbrestru a rhestrau gwaharddedig, sut y gallant effeithio ar gyflenwyr a chadwyni cyflenwi, a pha gamau y gall staff eu cymryd, neu y dylent eu cymryd, o fewn eu sefydliad eu hunain.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Ddarparu copïau o unrhyw ddeunydd hyfforddi ar arferion cyflogaeth annheg sy'n amlygu gwybodaeth am gosbrestru i'w defnyddio yn eu sefydliadau eu hunain.
- Datblygu a chynnal cyrsiau hyfforddi i'ch cyflenwyr fynd arnynt. Gallai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu, er enghraifft, wyneb yn wyneb, drwy fideogynadleda neu ar-lein drwy weminarau neu welediadau.

### **Gweithdrefnau caffael**

#### **Adolygu a diwygio eich prosesau caffael ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig**

Dylech adolygu eich prosesau caffael cyflenwyr er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eich 'Polisi Cyflogaeth Foesegol'. Mae'n bwysig ystyried effaith unrhyw newidiadau ar eich cyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig. Ymhlith y newidiadau y dylech ystyried eu gwneud mae'r canlynol:

- Ymdrin â phob tendr neu ddigwyddiad caffael ar sail risg er mwyn sicrhau bod materion gweithlu yn cael eu hasesu,

eu deall a'u rheoli ymhob penderfyniad allweddol – dylai hyn gael ei wneud ar gam cynllunio pob tendr neu ddigwyddiad caffael. Er ei fod wedi'i gynllunio ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gallai 'Aseiad Risg Cynaliadwyedd' Llywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol i bob sefydliad at y diben hwn – <http://prp.gov.wales/toolkit/>

- Cynnwys copi o'ch 'Polisi Cyflogaeth Foesegol' a 'Pholisi Chwythu'r Chwiban' yn eich holl wybodaeth dendro neu cyn contract a chodi ymwybyddiaeth ohonynt drwy unrhyw ddigwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr'.
- Annog cyflenwyr i ddilyn y Cod a chytuno i'w roi ar waith yn ystod oes y contract. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gynnwys elfennau o'r Cod fel amodau contract.
- Fel rhan o'r broses gaffael, gofyn i gyflenwyr a ydynt wedi cyflawni gweithred sy'n torri Rheoliadau Cosbrestru 2010 yn y tair blynedd flaenorol. Gallai cwestiynau eraill gynnwys:
- A yw'r cyflenwr wedi cymryd unrhyw gamau i unioni pethau ("hunanlanhau" yng nghydestun caffael cyhoeddus) lle nodwyd yr arfer o gosbrestru?
  - Pa brosesau sydd gan y cyflenwr ar waith i sicrhau y caiff manylion data staff eu diogelu er mwyn sicrhau na chânt eu cynnwys ar restrau gwaharddedig (cosbrestru)? A yw'r prosesau hyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data?
  - Pa ganran o weithlu'r cyflenwr a ymrwymwyd drwy gyfryngwyr cyflogaeth? Lle bo'n berthnasol, pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cyfryngwyr cyflogaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data?
  - Pa gamau a gymerwch i sicrhau nad yw isgontractwyr y cyflenwr, h.y. asiantaethau cyflogaeth, wedi cosbrestru?
  - A yw holl weithwyr y cyflenwr yn rhydd i gael gwaith arall ar eu telerau eu hunain?
  - A yw holl weithwyr y cyflenwr yn rhydd i ymuno ag Undeb Llafur neu gytundeb ar y cyd?

- Ystyriwch gynnwys glynu wrth yr ymatebion i'r cwestiynau uchod fel amod contract.
- Ystyriwch ofyn i'r cyflenwr roi gwybodaeth am ei gadwyn gyflenwi pan ddyfernir y contract, gan roi enwau'r prif gyflenwyr. Ystyriwch wneud hyn yn amod contract.
- Os ydych am ymrwmo i gytundeb neu gontract gydag asiantaeth cyflogaeth neu recriwtio, gofynnwch am wybodaeth am ei harferion recriwtio a chyflogaeth, e.e. codi ffioedd recriwtio, nodi'r gwiriadau a wneir, cadw dogfennaeth, a'i defnydd o is-asiantaethau. Ystyriwch gynnwys glynu wrth ei hymateb fel amod contract.
- Cynhaliwch wiriadau diwydrwydd dyladwy ar y wybodaeth a roddir gan ddarpar gyflenwyr.

Gweler y ddogfen Enghreifftiau o Gwestiynau, Amodau a Pholisïau yn y pecyn cymorth am ragor o gyngor.

### Gofynion ychwanegol i brynwyr yn y sector cyhoeddus

Rhaid i brynwyr yn y sector cyhoeddus ("Awdurdodau Contractio") sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Cyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus 2014 ac egwyddorion tryloywder, triniaeth gyfartal, cymesuredd a dim gwahaniaethu sy'n deillio o'r Cytundeb (ar Weithredu'r Undeb Ewropeaidd). Dylech hefyd geisio cyngor cyfreithiol, gan nad yw'r Canllaw hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith a bydd pob ymarfer caffael yn codi ystyriaethau gwahanol. Mae'r Nodyn Cyngor Caffael ar Gosbrestru yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru, a dylid dilyn y cyngor ynddo ymhob contract perthnasol.

Drwy ddefnyddio'r adnodd 'Squizard' ar wefan gwerthwchigymru, ynghyd â'r Aseiad Risg Cynaliadwyedd, bydd modd i chi ymdrin â phob digwyddiad caffael ar sail risg. Dylai unrhyw gwestiynau dethol perthnasol pellach gael eu hychwanegu at y SQuID fel cwestiynau sy'n benodol i'r prosiect.

Mae defnyddio'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd a SQuID yn ofyniad yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Gweler y ddogfen Cwestiynau Tendr Enghreifftiol yn y pecyn cymorth am ragor o fanylion.

Cyfeirir prynwyr y sector cyhoeddus at y darpariaethau yn PCRs 2015, sy'n cefnogi prynu moesegol. Ceir crynodeb isod o'r darpariaethau sydd fwyaf perthnasol i bwnc y Canllaw hwn; fodd bynnag dylech gyfeirio at y Rheoliadau eu hunian i weld y telerau llawn:

([www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi\\_20150102\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf)).

- Mae Rheoliad 56(2) yn caniatáu i chi beidio â dyfarnu contract i'r sawl a gyflwynodd y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd lle rydych wedi pennu nad yw'r tendr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cymwys ym meysydd cyfraith amgylcheddol, cymdeithasol a llafur fel y'i sefydlwyd gan gyfraith yr UE, cyfraith genedlaethol, cytundebau ar y cyd neu gan y darpariaethau cyfraith amgylcheddol, cymdeithasol a llafur rhyngwladol a restrir yn Atodiad X i'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus – <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32014L0024>. Noder bod y ddarpariaeth hon yn canolbwyntio ar y tendr – yn hytrach na'r tendrwr (y tendrwr sy'n destun y rhesymau dros wahardd yn ôl disgrisiwn).
- Mae Rheoliad 57 (8) yn cynnwys rhestr o resymau dros wahardd yn ôl disgrisiwn, sy'n caniatáu i chi wahardd tendrwr o ymarfer caffael os gallwch ddangos mewn unrhyw ffordd briodol fod y cyflenwr wedi naill ai dorri ei rwymedigaethau cymwys y cyfeirir atynt yn Rheoliad 8(2) neu ei fod yn euog o gamymddwyn proffesiynol difrifol, sy'n codi amheuon ynghylch ei onestrwydd. Rhaid rhoi'r cyfle i dendrwr ddangos tystiolaeth o unrhyw 'hunanlanhau' ac, os tybir bod hynny'n ddigonol, gellir osgoi eu gwahardd.

- Mae Rheoliad 67 yn nodi bod yn rhaid i feini prawf dyfarnu fod yn gysylltiedig â thestun y contract. Gallwch gynnwys ystyriaethau cymdeithasol (gan gynnwys materion gweithlu) a masnachu yn eich meini prawf dyfarnu contract ar yr amod eu bod yn gysylltiedig â thestun y contract.
- Mae Rheoliad 70 yn caniatáu i chi gynnwys amodau arbennig sy'n ymwneud â chyflawni contract, a all gynnwys ystyriaethau cymdeithasol neu gysylltiedig â gwaith, ar yr amod eu bod yn gysylltiedig â thestun y contract ac wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad contract a/neu ddogfennaeth dendro.
- Mae Rheoliad 71 yn caniatáu i chi ofyn i'r tendrwr nodi yn ei dendr unrhyw gyfran o'r contract y gall fod yn bwriadu ei hisgontractio i drydydd partion ac unrhyw isgontractwyr arfaethedig. Gall defnyddio'r ddarpariaeth hon wneud eich cadwyn gyflenwi yn fwy tryloyw.

Adolygu a diwygio eich prosesau rheoli contract ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig

Dylech adolygu a diwygio eich dogfennau contract, gan gynnwys eich Telerau ac Amodau Safonol, er mwyn adlewyrchu eich 'Polisi Cyflogaeth Foesegol'. Dylech hefyd ystyried p'un a gaiff gofynion a chwestiynau a ddefnyddir yn y broses gaffael eu hadlewyrchu yn nhelerau'r contract.

Ymhlith y newidiadau y dylech ystyried eu gwneud mae'r canlynol:

- Cynnwys dolen i'ch 'Polisi Cyflogaeth Foesegol' ar eich archebion prynu, anfonebau, nodiadau derbyn nwyddau ac ati.
- Cynnwys trafodaethau am gosbrestru mewn cyfarfodydd adolygu contractau gyda'ch cyflenwyr, lle bo'n briodol. Dylai'r trafodaethau hyn ganolbwyntio ar gamau y mae pawb dan sylw wedi'u cymryd tuag at ymdrin ag unrhyw faterion posibl neu hysbys.

- Cynnwys cymal terfynu ymhob contract sy'n eich galluogi i derfynu contract os gwneir unrhyw hawliadau yn erbyn eich cyflenwr mewn perthynas â chosbrestru neu restrau gwaharddedig.
- Sicrhau bod rhwymedigaethau cytundebol is-gontractwyr eich cyflenwr yr un peth â rhai eich cyflenwr mewn perthynas â chosbrestru a'r defnydd o restrau gwaharddedig.
- Ei gwneud yn amod cytundebol bod yn rhaid cymeradwyo pob is-gontractwr sy'n darparu gwasanaethau fel rhan o'ch contract.

Lle bynnag y bo modd, dylech ystyried cynnwys y rhain yn ôl-weithredol mewn contractau presennol drwy drafod â'ch cyflenwr presennol. Gweler y ddogfen Cwestiynau Tindr Enghreifftiol ac Amodau Contract yn y pecyn cymorth.

## Datrys problemau:

### Gweithio gyda'ch cyflenwr i ddatrys problemau a newid arferion gwaith

Lle nodwyd achosion o gosbrestru yn eich cadwyn gyflenwi, dylech anelu at weithio gyda'r cyflenwr er mwyn egluro a deall ymhellach y sefyllfa, a helpu i unioni pethau, lle bo modd.

Mae eich perthynas â'r cyflenwr yn debygol o bennu faint o ddylanwad a gewch i gyflwyno newid. Er na fyddwch efallai yn un o brif gwsmeriaid y cyflenwr, gall fod yn hanfodol i'ch busnes. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall cydgysylltu â'ch partneriaid yn y gadwyn gyflenwi a busnesau eraill sy'n defnyddio'r un cyflenwr fod yn ffordd dda o gynyddu eich dylanwad. Gall hefyd helpu i gynnwys sefydliadau fel cyrff Llywodraeth, Undebau Llafur a chyrff Diwydiant.

Ymhlith y camau y gallwch eu cymryd mae:

- Gweithio gyda'r cyflenwr i ddeall beth yw'r prif faterion, pam eu bod yn digwydd a beth sydd angen ei wneud i gyflwyno newid.
- Rhoi copïau o'ch Polisi Cyflogaeth Foesegol i'ch cyflenwr er mwyn ei helpu i ddeall eich sefyllfa o ran cosbrestru a pham eich bod am ymdrin â'r materion hyn.

- Rhoi copïau o unrhyw ddeunydd hyfforddi mewnol neu ganllawiau ar gosbrestru i'r cyflenwr eu defnyddio. Fel arall gallech wahodd cyflenwr i'ch cyrsiau hyfforddi mewnol eich hun.
- Datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu gyda'r cyflenwr sy'n amlinellu'n glir beth mae pob cam gweithredu yn ei olygu a phwy sy'n gyfrifol ynghyd â therfynau amser, cerrig milltir a thargedau. Dylid ymdrin â'r materion pwysicaf fel blaenoriaeth yn y cynllun gweithredu.
- Cadw mewn cysylltiad â'r cyflenwr er mwyn asesu hynt y cynllun, ond hefyd sicrhau bod y cyflenwr yn teimlo bod hyn yn gyfrifoldeb a rennir.
- Sefydlu prosesau adborth y gall gweithwyr eu defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf o'u safbwynt eu hunain.

Os credwch fod aelod o staff wedi cael ei gosbrestru ar unrhyw adeg yn ei yrfa gall weld drwy gysylltu â Llinell Gymorth Cosbrestru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar 0800 587 7539 neu fynd i'r cyfeiriad canlynol – <https://ico.org.uk/for-the-public/construction-blacklist/>.

## Terfynu eich contract

Dylech ystyried beth y byddwch am allu ei wneud os canfyddir bod eich cyflenwr, neu gyflenwr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi, wedi bod ynghlwm wrth Gosbrestru. Os hoffech allu dod â'ch cydberthynas i ben, bydd angen i chi sicrhau bod geiriad eich contract yn eich galluogi i derfynu o dan unrhyw amgylchiadau.

Gall terfynu contract gael effaith niweidiol ar eich busnes eich hun o ran parhad cyflenwad, ansawdd cyflenwad ac enw da. Yn yr amgylchiadau hyn efallai y byddwch yn penderfynu ei bod yn werth ceisio datrys y broblem cyn ystyried terfynu'r contract.

Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar ddrafftio'r darpariaethau terfynu priodol mewn unrhyw contract a chyn i unrhyw gamau gael eu cymryd i derfynu'r contract.

## Atodiad A – Cymorth, Canllawiau ac Adnoddau Pellach

Isod ceir rhestr o adnoddau a nodwyd wrth ddatblygu'r canllaw hwn a all fod o gymorth pellach i chi a'ch sefydliad. Noder nad yw'r rhestr o adnoddau yn gynhwysfawr.

### **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)**

Llinell Gymorth Cosbrestru – 0800 587 7539  
<https://ico.org.uk/for-the-public/construction-blacklist/>

### **Cyngor Polisi ar Gosbrestru**

Llywodraeth Cymru  
Nodyn Cyngor Polisi Caffael – 10/09/2013  
“*Cosbrestru yn y Diwydiant Adeiladu*”  
<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/130910blacklistingpanfinal.doc>

Llywodraeth yr Alban  
Nodyn Polisi Caffael yr Alban 4.13 – 10/11/2013  
“*Exclusion from public contracts of companies which engage in blacklisting*”  
[www.gov.scot/resource/0043/00438311.pdf](http://www.gov.scot/resource/0043/00438311.pdf)

### **Adnoddau a Gwybodaeth Undebau Llafur**

Uno'r Undeb – Adeiladu a Chrefftau Perthynol  
– Llinell gymorth Cosbrestru ar gyfer aelodau –  
ffoniwch 0800 587 7539  
[www.unitetheunion.org/how-we-help/list-of-sectors/construction/constructionblacklisting/](http://www.unitetheunion.org/how-we-help/list-of-sectors/construction/constructionblacklisting/)

UCATT – Ymgyrch Cosbrestru (mae UCATT bellach wedi uno ag Unite)  
[www.ucatt.org.uk/blacklisting](http://www.ucatt.org.uk/blacklisting)

UCATT – Canllaw Caffael Cyhoeddus a Chosbrestru  
[www.ucatt.org.uk/blacklisting-and-public-procurement](http://www.ucatt.org.uk/blacklisting-and-public-procurement)

GMB – 111 o weithwyr wedi'u cosbrestru yng Nghymru  
[www.gmb.org.uk/newsroom/111-blacklisted-in-wales](http://www.gmb.org.uk/newsroom/111-blacklisted-in-wales)

TUC – Own Up! Pay Up! Clean Up!  
[www.tuc.org.uk/workplace-issues/employment-rights/health-and-safety/own-pay-clean-tuc-day-action-blacklisting](http://www.tuc.org.uk/workplace-issues/employment-rights/health-and-safety/own-pay-clean-tuc-day-action-blacklisting)

### **Adnoddau a Gwybodaeth Llywodraeth**

Llywodraeth Cymru  
Datganiad Ysgrifenedig ar Gosbrestru 04/06/2013  
<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2013/blacklisting/?lang=en>

Llywodraeth y DU  
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) –  
18/08/2009  
The blacklisting of trade unionists: revised draft regulations  
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.berr.gov.uk/consultations/page52145.html>

Tŷ'r Cyffredin  
Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Gosbrestru ym maes Cyflogaeth  
[www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/scottish-affairs-committee/inquiries/parliament-2010/blacklisting-in-employment/](http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/scottish-affairs-committee/inquiries/parliament-2010/blacklisting-in-employment/)

Tŷ'r Cyffredin – 2012/2013  
Blacklisting in Employment: Interim Report Ninth Report of Session 2012–13  
[www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmselect/cmselect/1071/1071.pdf](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmselect/cmselect/1071/1071.pdf)

Tŷ'r Cyffredin – 2013/2014  
Pwyllgor Materion yr Alban – Blacklisting in Employment: addressing the crimes of the past; moving towards best practice  
[www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmselect/cmselect/543/543.pdf](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmselect/cmselect/543/543.pdf)

Tŷ'r Cyffredin – 2014/2015  
Pwyllgor Materion yr Alban – Blacklisting in  
Employment: Adroddiad Terfynol  
[www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmscotaf/272/272.pdf](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmscotaf/272/272.pdf)

Tŷ'r Cyffredin – 06/2016  
Papur Briffio – Trade Unions: blacklisting  
<http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN06819>

### **Deddfwriaeth a Rheoleiddio**

Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur  
(Cydgrynhoi) 1992  
[www.legislation.gov.uk/ukpga/1992/52/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1992/52/contents)

Deddf Diogelu Data 1998  
[www.gov.uk/data-protection/the-data-protection-act](http://www.gov.uk/data-protection/the-data-protection-act)

Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999  
(Cosbrestrau) 2010  
[www.legislation.gov.uk/uksi/2010/493/contents/made](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/493/contents/made)

Rheoliadau Contractau Caffael 2015  
[www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi\\_20150102\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf)

### **Sylw yn y Cyfryngau**

ICO Blog – 29/08/2012

Prosecution of construction blacklist used  
strongest powers we had at the time

<http://web.archive.org/web/20150210143322/https://iconewsblog.wordpress.com/2012/08/29/ico-blog-prosecution-of-construction-blacklist-used-strongest-powers-we-had/>

The Guardian – 10/10/2013  
Construction firms to compensate unlawfully  
blacklisted workers  
[www.theguardian.com/business/2013/oct/10/construction-firms-compensate-workers-blacklist](http://www.theguardian.com/business/2013/oct/10/construction-firms-compensate-workers-blacklist)

Construction Magazine – 11/07/2014  
Construction Blacklisting cases to be heard as  
one “supercase”  
[www.constructionmanagemagazine.com/news/blacklisting-victims-cases-be-heard-one-supercase/](http://www.constructionmanagemagazine.com/news/blacklisting-victims-cases-be-heard-one-supercase/)

Parliament UK 27/03/2016  
Unilateral blacklisting compensation scheme  
an “act of bad faith”  
[www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/scottish-affairs-committee/news/blacklisting-final-report-published/](http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/scottish-affairs-committee/news/blacklisting-final-report-published/)

Gwefan y BBC – 29/04/2016  
Construction firms strike blacklisting  
settlement  
[www.bbc.co.uk/news/business-36173104](http://www.bbc.co.uk/news/business-36173104)

Gwefan y BBC – 06/05/2016  
Construction workers win blacklisting  
compensation  
[www.bbc.co.uk/news/business-36242312](http://www.bbc.co.uk/news/business-36242312)

Guardian – 11/05/2016  
Construction firms apologise in court over  
blacklist  
[www.theguardian.com/business/2016/may/11/construction-firms-apologise-in-court-over-blacklist?CMP=share\\_btn\\_tw](http://www.theguardian.com/business/2016/may/11/construction-firms-apologise-in-court-over-blacklist?CMP=share_btn_tw)

### **Canllaw Cynllunio Caffael**

Pecyn Cymorth CCC  
<http://prp.gov.wales/toolkit/>

### **Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi**

Ethical Procurement and Supply –  
E-Learning Module  
[www.cips.org/en-sg/training/ethical-procurement-and-supply/](http://www.cips.org/en-sg/training/ethical-procurement-and-supply/)

### **Gweithio gyda Chwmniau Recriwtio**

HR Magazine 24/04/2013  
Blacklisting report causes concern for  
HR best practice  
[www.hrmagazine.co.uk/article-details/blacklisting-report-cause-for-concern-for-hr-best-practice](http://www.hrmagazine.co.uk/article-details/blacklisting-report-cause-for-concern-for-hr-best-practice)

## Atodiad B – Cwestiynau SQuID ar Gosbrestru mewn contractau sector cyhoeddus

### SA.GEN.02

**Nodyn i brynwyr:** Ni allwch eithrio'n awtomatig o unrhyw un o'r meini prawf hyn. Bydd angen i chi ystyried pob un fesul achos, gan **asesu unrhyw dystiolaeth bod cyflenwyr wedi hunanlanhau.**

#### SAGen002a01v02

Mae Rheoliad 57 (8) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn nodi ar ba sail y gellir ystyried nad yw'r sefydliad sy'n cyflwyno cynnig yn gymwys i dendro ar gyfer contract cyhoeddus neu gael contract cyhoeddus. Os bydd yn dod yn amlwg i'r sefydliad sy'n prynu, bod unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol wedi bod yn gymwys i'ch sefydliad o fewn y tair blynedd diwethaf, neu os yw'n gymwys i'ch sefydliad ar hyn o bryd, gellir eich eithrio o'r broses gaffael. Dewiswch "Ydy" os hoffech drafod unrhyw rai o'r materion hyn gyda'r sefydliad sy'n prynu.

- a) mae eich sefydliad wedi torri rhwymedigaethau ym meysydd cyfraith amgylcheddol, gymdeithasol a llafur
- b) mae eich sefydliad yn fethdalwr neu'n destun camau ansolfedd neu ddirwyn i ben
- c) mae eich sefydliad yn euog o gamymddwyn proffesiynol difrifol, sy'n golygu bod amheuaeth ynghylch ei uniondeb
- ch) mae eich sefydliad wedi llunio cytundebau â gweithredwyr economaidd eraill gyda'r nod o ystumio'r gystadleuaeth
- d) mae gan eich sefydliad wrthdaro buddiannau gyda'r sefydliad sy'n prynu na ellir ei unioni
- dd) mae cyfranogiad eich sefydliad ymlaen llaw wrth baratoi'r weithdrefn caffael wedi arwain at ystumio'r gystadleuaeth mewn modd na ellir ei unioni

- e) mae eich sefydliad wedi dangos diffygion sylweddol neu fynych ym mherfformiad un o'r gofynion parhaol o dan contract cyhoeddus blaenorol a arweiniodd at derfynu'r contract blaenorol hwnnw yn gynnar, iawndal neu sancsiynau eraill tebyg
- f) mae eich sefydliad wedi bod yn euog o gamddechongli difrifol wrth gyflenwi gwybodaeth mewn ymarfer caffael, neu mae wedi cadw'r cyfryw wybodaeth neu ni all gyflwyno'r ddogfennaeth ategol; neu
- ff) mae eich sefydliad wedi ceisio dylanwadu'n ddiangen ar broses yr awdurdod contractio o wneud penderfyniadau, neu gael gwybodaeth gyfrinachol; neu mae wedi darparu gwybodaeth gamarweiniol a all gael dylanwad sylweddol ar benderfyniadau mewn perthynas ag eithrio, dethol neu ddyfarnu.

**Ateb:** Hoffwn/Na hoffwn

**Canllawiau ar gyfer cynigwyr:** Gall y prynwr eich eithrio rhag cymryd rhan mewn gweithdrefn gaffael os gwelir, ar ôl ymchwilio i'r amgylchiadau, bod unrhyw un o'r seiliau hyn dros eithrio yn gymwys.

Os ydych yn cyflwyno cynnig fel consortiwm neu ar ei ran, dylech gadarnhau â phob aelod o'r consortiwm a yw'r seiliau hyn dros eithrio yn gymwys.

Gall y prynwr gynnwys cwestiynau ychwanegol sy'n cwmpasu rhai o'r seiliau hyn yn fwy penodol, er enghraifft, ar wrthdaro buddiannau, ar arferion cyflogaeth fel Cosbrestru a Hunangyflogaeth Ffug ac ar droseddau o dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb, Amgylcheddol ac Iechyd a Diogelwch. Gweler Rheoliad 56(2) am ragor o fanylion.



## SA.GEN.04

### **SAGen004a01v01**

A ganfuwyd eich bod chi neu eich sefydliad wedi bod yn defnyddio'r arfer o 'gosbrestru' yn ystod y tair blynedd diwethaf?

**Ateb:** Do/Naddo

### **SAGen004b01v01**

Os mai "Ydw/Ydy" oedd eich ateb i gwestiwn SA.GEN.04a dylech gynnwys manylion yma, gan amlinellu'r amgylchiadau, yn cynnwys camau a gymerwyd gennych ers hynny i unioni pethau, fel y'i disgrifiwyd yng nghanllawiau'r cwestiwn hwn.

**Ateb:** Mae esboniad yn amlinellu'r camau a gymerwyd.

**Canllawiau ar gyfer cynigwyr:** Os ydych chi neu eich sefydliad wedi defnyddio neu redeg rhestrau gwaharddedig o fewn y tair blynedd diwethaf, fel y'i diffiniwyd yn Rheoliadau 2000 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau), rhaid i chi ddatgelu hyn.

Gall y prynwr ystyried nad ydych yn gymwys i dendro oni allwch ddangos tystiolaeth ddigonol o 'hunanlanhau' (gweler Rheoliad 57 (13) – (17)). Caiff y mesurau a gymerwyd gennych eu gwerthuso hefyd gan ystyried difrifoldeb ac amgylchiadau penodol yr achos o gamymddwyn.

Os ydych yn cyflwyno cynnig fel consortiwm neu ar ei ran, dylech gadarnhau â **phob** aelod o'r consortiwm a yw'r seiliau hyn dros eithrio yn gymwys. Dewiswch "Do" os yw'r seiliau hyn yn gymwys i unrhyw aelod o'r consortiwm.